MRC Epidemiology Unit

UNIVERSITY OF CAMBRIDGE

SWiM
SUPPORTING WEIGHT MANAGEMENT

New!

## Dyw hi ddim yn hawdd colli pwysau.

## Ond yr her go iawn yw ei gadw i ffwrdd.




Ydych chi wedi colli pwysau yn ddiweddar trwy raglen rheoli pwysau?

Mae Prifysgol Caergrawnt a GIG Swydd Gaergrawnt a Peterborough ICB yn cynnal astudiaeth ymchwil i brofi rhaglen rheoli pwysau i weld a yw'n helpu pobl i gadw’r pwysau i ffwrdd yn y tymor hir.

Mae'r rhaglen hon wedi'i **datblygu gan arbenigwyr blaenllaw** yn y maes, gan gynnwys seicolegwyr, ymchwilwyr a meddygon. Mewn astudiaeth ddiweddar, disgrifiodd cyfranwyr sut roedd y rhaglen wedi’u helpu i barhau â’r ymddygiad iach y dechreuon nhw yn ystod eu rhaglen rheoli pwysau, eu helpu i gadw'r pwysau i ffwrdd, a gwella eu hiechyd a’u lles.

Rydyn ni'n chwilio am wirfoddolwyr, sydd wedi colli pwysau yn ddiweddar trwy raglen rheoli pwysau neu reoli diabetes, i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Enw'r astudiaeth yw SWiM (Supporting Weight Management) ond does dim angen nofio go iawn!

## Beth fydd yn digwydd yn yr astudiaeth SWiM?

Os ydych chi'n penderfynu cymryd rhan, byddwch yn cael eich neilltuo ar hap i naill ai:

**Gofal Safonol** NEU **Rhaglen SWiM**






## Ydych chi'n gymwys i gymryd rhan?

I gymryd rhan, rhaid i chi fod dros 18 oed a bod wedi cwblhau rhaglen colli pwysau neu raglen atal neu leddfu diabetes math 2 o fewn y 6 mis diwethaf.

## Beth fydd yn digwydd yn yr astudiaeth SWiM?

Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth yn cwblhau'r mesurau canlynol ar ddechrau'r rhaglen ac ar ôl 6, 12 a 24 mis.

- Holiaduron ar-lein am eich iechyd a lles
- Pwyso'ch hun gan ddefnyddio'r glorian y byddwn yn ei hanfon atoch.
- Dewisol - sampl gwaed pigiad bys i brofi lefel y glwcos yn eich gwaed



Hefyd, efallai y cewch eich gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweliad i ddweud eich barn am y rhaglen y cawsoch eich neilltuo iddi a'ch profiadau yn ystod yr astudiaeth.

## Beth yw manteision cymryd rhan?

- Byddwch yn rhan o astudiaeth bwysig ledled y DU sy'n rhoi gwybodaeth i'r GIG am ffyrdd gwell o helpu pobl i reoli pwysau yn yr hirdymor.
- Byddwch yn derbyn un o ddwy ymyrraeth, a allai'ch helpu i gadw'r pwysau i ffwrdd a gwella eich iechyd a'ch lles.
- Byddwn yn anfon clorian atoch.
- Byddwch yn derbyn talebau ar gyfer siopau'r stryd fawr wrth gwblhau mesurau ar ôl 6 mis, 12 mis, a 24 mis.

## Am gymryd rhan?

I ddysgu mwy am yr astudiaeth hon a sut gallai'ch helpu chi, ewch i'n tudalen we am ragor o wybodaeth am sut i gymryd rhan https://studies.mrc-epid.cam.ac.uk/swim

Neu mae croeso i chi ffonio neu e-bostio ein tîm ymchwil cyfeillgar.

01223 375399

Swim2.study@mrc-epid.cam.ac.uk